

Y Gyfraith ynghylch Digartrefedd yng Nghymru

Y ddeddf sy'n rheoli ein holl benderfyniadau yw Deddf Tai (Cymru) 2014. Mae Rhan 2 yn trafod digartrefedd, ac mae crynodeb ohoni isod.

Asesu a Hysbysu

● Asesu – Adran 62

Mae'n rhaid i'r Cyngor asesu ymgeisydd, ac os yw'n gymwys, mae'n rhaid ystyried amgylchiadau ac anghenion tai a chymorth yr ymgeisydd.

● Hysbysu canlyniad yr asesiad – Adran 63

Mae'n rhaid i'r Cyngor roi gwybod i'r ymgeiswyr pa ddyletswyddau sydd ganddo dan yr Adran hon, os oes rhai o gwbl. Dyma rai o ddyletswyddau posibl y Cyngor:

- Adran 60 – Dyletswydd i gynnig cyngor a chymorth
- Adran 66 – Dyletswydd i helpu i atal digartrefedd
- Adran 68 – Dyletswydd i gynnig llety dros dro
- Adran 73 – Dyletswydd i helpu i sicrhau llety addas
- Adran 75 – Dyletswydd i gynnig llety sefydlog

● Hysbysu bod y dyletswyddau wedi dod i ben – Adran 84

Pan fo'r Cyngor yn penderfynu bod ei ddyletswydd i ymgeisydd dan adrannau 66, 68, 73 neu 75 wedi dod i ben, mae'n rhaid iddo roi gwybod i'r ymgeisydd:

- (a) nad yw'n ystyried ei fod yn gyfrifol am y ddyletswydd dan sylw mwyach,
- (b) am y rhesymau pam y mae'n ystyried bod ei ddyletswydd wedi dod i ben,
- (c) bod ganddo hawl gofyn am adolygiad, a'r
- (d) cyfnod amser sydd ganddo i wneud cais o'r fath.

Mae'n rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig. Os nad oes cyfeiriad post ar y cais, byddwn yn sicrhau bod yr hysbysiad ar gael yn ein swyddfeydd er mwyn i'r ymgeisydd neu rywun ar ei ran ddod i'w gasglu.

Ffyrdd y gall dyletswyddau cyfreithiol ddod i ben

Pan fo'r Cyngor yn derbyn dyletswydd, dim ond dan amgylchiadau penodol y gall ei therfynu:

● Dyletswydd Helpu i Osgoi – Adran 66, gellir dod â'r ddyletswydd i ben yn yr amgylchiadau

- canlynol:**
- Nid yw'r ymgeisydd mewn perygl o fod yn ddigartref mwyach;
 - Mae'r ymgeisydd yn gwrthod cynnig am lety;
 - Nid yw'r ymgeisydd yn gymwys am gymorth tai mwyach;
 - Mae'r ymgeisydd wedi tynnu ei gais am dŷ yn ôl;
 - Nid yw'r ymgeisydd yn cyd-weithredu;
 - Mae'r ymgeisydd wedi dod yn ddigartref;
 - Mae camgymeriad o ran ffaith.



Gwasanaeth Dewisiadau Tai

Y Gyfraith ynghylch Digartrefedd yng Nghymru

● Dyletswydd Helpu i Sicrhau – Adran 73, gellir dod â'r ddyletswydd i ben yn yr amgylchiadau canlynol:

- Mae'r cyfnod o 56 diwrnod wedi dod i ben (bydd y Cyngor yn ystyried a oes ganddo ddyletswydd derfynol i'r ymgeisydd).
- Mae'r Cyngor yn fodlon bod pob cam rhesymol wedi ei gymryd (bydd y Cyngor yn ystyried a oes ganddo ddyletswydd tai terfynol i'r ymgeisydd).
- Mae'r Cyngor yn fodlon bod gan yr ymgeisydd lety addas;
- Mae'r ymgeisydd yn gwrthod cynnig am lety;
- Nid yw'r ymgeisydd yn gymwys am gymorth tai mwyach;
- Mae'r ymgeisydd wedi tynnu ei gais am dŷ yn ôl;
- Nid yw'r ymgeisydd yn cyd-weithredu;
- Gwnaethpwyd penderfyniad oherwydd camgymeriad ffaith;
- Byddwn yn rhoi gwybod pa gamau rhesymol yr ydym wedi eu cymryd dan y ddyletswydd hon.

● Dyletswydd Derfynol i Sicrhau – Adran 75, gellir dod â'r ddyletswydd i ben yn yr amgylchiadau canlynol:

- Mae'r ymgeisydd yn derbyn cynnig gan y Rhestr Aros Gyffredin neu gynnig tenantiaeth sector rhent preifat.
- Mae'r ymgeisydd yn gwrthod llety addas, gan gynnwys o'r Rhestr Aros Gyffredin, cynnig o'r sector rhent preifat neu gynnig am lety dros dro.
- Mae'r ymgeisydd wedi dod yn ddigartref yn fwriadol ar ôl gadael llety dros dro;
- Mae'r ymgeisydd yn rhoi'r gorau yn wirfoddol i fyw yn y llety dros dro;
- Nid yw'r ymgeisydd yn gymwys am gymorth tai mwyach;
- Mae'r ymgeisydd wedi tynnu ei gais am dŷ yn ôl;
- Nid yw'r ymgeisydd yn cyd-weithredu;
- Gwnaethpwyd penderfyniad oherwydd camgymeriad ffaith.

● Dyletswydd Llety Dros Dro – Adran 68, gellir dod â'r ddyletswydd i ben yn yr amgylchiadau canlynol:

- Mae'r ymgeisydd yn gwrthod cynnig am lety dros dro;
- Mae'r ymgeisydd yn gadael llety dros dro yn wirfoddol neu'n fwriadol.
- Mae'r ddyletswydd o dan A73 wedi dod i ben;
- Nid yw'r ymgeisydd yn gymwys am gymorth tai mwyach;
- Mae'r ymgeisydd wedi tynnu ei gais am dŷ yn ôl;
- Nid yw'r ymgeisydd yn cyd-weithredu;
- Gwnaethpwyd penderfyniad oherwydd camgymeriad ffaith.

● Atgyfeiriadau Cysylltiad Lleol â Bwrdeistrefi Eraill – Adran 80

Caiff ymgeiswyr eu hatgyfeirio at Fwrdeistref fwy priodol os yw'r Cyngor yn credu y bodlonir amodau atgyfeirio. Sef:

- Nid oes gan yr ymgeisydd, neu unrhyw berson y disgwylir yn rhesymol ei fod yn byw gyda'r ymgeisydd, gysylltiad lleol pan wnaethpwyd y cais;



Gwasanaeth Dewisiadau Tai

Y Gyfraith ynghylch Digartrefedd yng Nghymru

● Atgyfeiriadau Cysylltiad Lleol â Bwrdeistrefi Eraill – Adran 80 (wedi'i barhau)

- Mae gan yr ymgeisydd, neu unrhyw berson y disgwylir yn rhesymol ei fod yn byw gyda'r ymgeisydd, gysylltiad lleol ag ardal yr awdurdod lleol arall, a;
- Ni fydd yr ymgeisydd, neu unrhyw berson y disgwylir yn rhesymol ei fod yn byw gyda'r ymgeisydd, mewn perygl o gam-drin domestig yn yr ardal arall honno;
- Mae gan yr ymgeisydd angen â blaenoriaeth
- Nid yw'r ymgeisydd yn ddigartref yn fwriadol

● Angen â Blaenoriaeth am Lety – Adran 75

Rhoddir y ddyletswydd i sicrhau llety (dyletswydd tai dros dro a therfynol) i ymgeiswyr sydd ag angen â blaenoriaeth am lety yn unig.

